

# Cynllun Cymhwysedd Hyblyg ECO Help i Wresogi

## ECO Help To Heat Flexible Eligibility Scheme

Tai ac Eiddo /  
Housing and Property

Mae'r Rhwymedigaeth Cwmni Ynni (ECO) yn gynllun grant sy'n golygu y gellir gwneud gwaith gwella effeithlonrwydd ynni ar gyfer cwsmeriaid sydd mewn tloedi tanwydd. Dan y cynllun cymhwysedd hyblyg ECO - Help i Wresogi, gall cyflenwyr ynni sydd wedi ymrwymo i'r cynllun ddefnyddio'r mecanwaith "cymhwysedd hyblyg" ar gyfer hyd at 25% o'r rhwymedigaeth Gwres Fforddiadwy ECO drwy osod mesurau arbed ynni mewn eiddo sydd, yn ôl yr awdurdodau lleol, yn gymwys.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cyhoeddi Datganiad o Fwriad sy'n caniatáu i'r cynllun hwn gael ei gyflawni yng Ngwynedd: <https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholisïau/Tai/ECO.aspx>

Mae'r Datganiad o Fwriad yn nodi'r meini prawf cymhwysedd (rhaid i ymgeiswyr fod yn byw mewn eiddo sydd â thystysgrif EPC graddfa E, F neu G neu sgorio'n uchel ar y ffurflen gais os nad oes ganddynt EPC).

### Pa fath o fesurau sy'n cael eu cynnig drwy'r cynllun?

Inswleiddio Waliau Ceudod, Inswleiddio Waliau Mewnol, Inswleiddio'r Gofod yn y To, Gwresogyddion Storio Trydan, Inswleiddio dan y Llawr, Inswleiddio Crogllofftydd, Gwres Canolog am y Tro Cyntaf, Adnewyddu Boeleri

### Camau Cysylltiedig

1. Bydd angen i ddeiliaid tai gysylltu gyda Menai Heating (01248 421 044)
2. Bydd Menai Heating yn gwirio i weld a yw perchennog yr eiddo'n cwrdd â meini prawf y cynllun. Byddant yn trefnu arolwg o gyflwr yr eiddo gan edrych ar bethau megis oed y boeler, y mesurau inswleiddio sydd eisoes yn eu lle a nifer a maint yr ystafelloedd.
3. Gofynnir i ddeiliaid tai lenwi ffurflen gais fer a fydd yn cael ei chyflwyno i Gyngor Gwynedd er mwyn penderfynu a yw'r ymgeisydd yn gymwys. Rhaid dychwelyd y ffurflen i Menai Heating a fydd yn cyflwyno'r cais ar ran y deiliad.
4. Unwaith y bydd y Cyngor wedi cadarnhau bod yr ymgeisydd yn gymwys, bydd Menai Heating yn anfon adroddiad at gwmni ynni a fydd wedyn yn cynnig swm o arian sydd, yn eu tŷb nhw, yn briodol i wella graddfa effeithlonrwydd ynni'r eiddo.
5. Bydd y penderfyniad ynghylch a fydd yr ymgeisydd yn derbyn cymorth ai peidio'n cael ei wneud gan y cwmni ynni. Ni fydd Datganiad wedi'i lofnodi gan Gyngor Gwynedd yn gwarantu unrhyw waith gwella a wneir oherwydd mater i'r cwmni ynni fydd y penderfyniad terfynol.
6. Os yw cost y gwaith gwella'n is na chynnig y cwmni ynni, bydd y gwaith yn cael ei wneud am ddim. Os yw'n uwch, efallai y bydd angen i berchennog yr eiddo wneud cyfraniad ariannol yn unol â chyngor Menai Heating. Nid yw'r perchennog dan unrhyw ymrwymiad o gwbl i symud ymlaen gyda'r gwaith ar y pwynt yma.
7. Bydd Menai Heating wedyn yn trefnu dyddiad i wneud y gwaith gwella pwysig hwn.

[www.gwynedd.llyw.cymru](http://www.gwynedd.llyw.cymru)

